**Blog Swyddog SchoolBeat**

Deunawfed o Fawrth yw Diwrnod Cenedlaethol Ymwybyddiaeth Camfanteisio ar Blant.

Mae'r diwrnod yn anelu i dynnu sylw at y materion o gwmpas Camfanteisio ar Blant ac annog pawb i **feddwl, adnabod a chodi llais yn erbyn cam-drin**.

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn fath o gam-drin rhywiol sy'n cynnwys paratoi at bwrpas rhyw a/neu orfodi plant a phobl ifainc o dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol.

Weithiau, gall Camfanteisio Troseddol fod yn gysylltiedig â masnachu mewn plant a Llinellau Cyffuriau, lle mae plentyn yn cael ei symud o gwmpas, ei gam-drin a/neu ei ddefnyddio i gario cyffuriau ac arfau.

Felly, beth fedrwch chi wneud er mwyn helpu i gadw eich plentyn yn ddiogel?

Adnabod yr arwyddion yw'r cam cyntaf. Gall fod yn anodd weithiau i adnabod y gwahaniaethau rhwng ymddygiad sy'n gyffredin mewn pobl ifainc yn eu harddegau a chysylltiad â chamfanteisio, ond mae yna arwyddion y medrwch gadw llygad allan amdanynt.

Efallai y byddwch yn sylwi ar y canlynol;

Efallai bydd y plentyn yn newid y ffordd mae'n edrych, ac efallai bydd ganddo eiddo a dillad newydd

Efallai bydd ganddo 'ffrindiau newydd'. Efallai bydd y ffrindiau hyn yn hŷn, ac mae'n bosibl na fyddwch chi fel teulu'n eu hadnabod

Efallai bydd yn ymddwyn yn gyfrinachol ynglŷn â ble mae wedi bod a phwy sydd gydag ef

Efallai bydd yn ymddieithrio wrth yr ysgol ac yn absennol am gyfnodau heb esboniad

Efallai bydd yn aros allan gyda'r nos, neu'n mynd ar goll

Efallai bydd yn hunan-niweidio, neu efallai bydd ganddo gleisiau neu anafiadau anesboniadwy

Yn aml, gellir beio plant sy'n arddangos newidiadau yn eu hymddygiad am fod allan o reolaeth. Gellir diystyru bechgyn yn arbennig, ac weithiau, gellir ystyried bod eu hymddygiad yn gyffredin ymysg bechgyn.

Fel oedolion, dylem fod yn ystyriol o berthnasau lle mae anghydbwysedd o ran pŵer bob amser.

Os ydych chi'n poeni am blentyn neu unigolyn ifanc, cofiwch bod help bob amser ar gael. Cewch alw 101 neu adrodd wrth CrimeStoppers Cymru'n ddienw.

**Gadewch inni gyd uno – Meddyliwch, Adnabyddwch a Chodwch Eich Llais yn erbyn cam-drin!**

Diolch am gymryd yr amser i wrando.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019